# Methodoleg Asesu

## Safleoedd Ymgeisiol



**Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn rhoi gwybodaeth am beth i'w ystyried cyn cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a sut y cânt eu hasesu ar ôl eu cyflwyno.**

## Beth yw Safleoedd Ymgeisiol?

**Safle Ymgeisiol** yw safle a gyflwynir i'r Cyngor gan barti â diddordeb (e.e. datblygwr neu berchennog tir) ar gyfer ei gynnwys o bosibl fel dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA).

**Mae'n bwysig nodi nad yw cyflwyno Safle Ymgeisiol yn cynrychioli ymrwymiad ar ran y Cyngor i symud safleoedd ymlaen i'r CDLl Amnewid.**

Bydd safleoedd yn destun asesiad cadarn a dim ond y rhai sy'n sgorio'n uchel o ran cynaliadwyedd, y gallu i gyflawni ac sy'n unol â'r Strategaeth CDLl Amnewid a gaiff eu dyrannu. **Efallai na fydd tir a ddyrennir yn y CDLl presennol yn cael ei gynnwys yn awtomatig yn y CDLl Amnewid.** O ganlyniad, dylid cyflwyno'r safleoedd hyn hefyd fel Safleoedd Ymgeisiol.

## Pa fath o safle y gellir ei gyflwyno?

**Mae croeso i chi gyflwyno safleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau y mae'r CDLl yn darparu ar eu cyfer, gallai hyn gynnwys:**

- Tai;
- Cyflogaeth;
- Manwerthu;
- Cyfleusterau cymunedol;
- Twristiaeth a hamdden;
- Ynni adnewyddadwy;
- Mwynau;
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr [1];
- Seilwaith trafnidiaeth;
- Gwastraff;
- Addysg;
- Iechyd a gofal cymdeithasol;
- Bioamrywiaeth; a
- Seilwaith gwyrdd

Os nad ydych yn siŵr a yw eich cyflwyniad yn berthnasol, cysylltwch ag aelod o'r tîm i'w drafod, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

[1] https://planningaidwales.org.uk/cynllunio-ar-gyfer-safleoedd-carafanau-sipsiwn-a-theithwyr/?lang=cy

## Y trothwy maint ar gyfer safleoedd

Er mwyn i safle gael ei ystyried fel Safle Ymgeisiol rhaid iddo fodloni un o'r trothwyon safle canlynol:

- Ar gyfer datblygiad preswyl (ac eithrio cynigion ar gyfer datblygiad â nifer o eiddo hunanadeiladu neu dai sy'n cael eu hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer cwsmeriaid penodol) - Rhaid i safle fod â lle ar gyfer 10 uned breswyl neu fwy neu fod ag arwynebedd safle gros o 0.5 Hectar (ha);
- Ar gyfer datblygiadau amhreswyl - Rhaid i adeilad fod ag isafswm arwynebedd llawr o 1,000m² neu mae'n rhaid i safle fod ag arwynebedd safle gros o 1ha o leiaf; neu
- Nid oes trothwy gofynnol ar gyfer safleoedd sy'n ceisio diogelu defnyddiau tir cyfredol a mannau gwyrdd arfaethedig, hyrwyddo defnydd sy'n gysylltiedig â theithio llesol, cynnig safleoedd llety i Sipsiwn a Theithwyr a/neu safleoedd ar gyfer sawl tŷ hunanadeiladu/a adeiladir yn bwrpasol ar gyfer cwsmeriaid penodol.

Ystyrir safleoedd islaw'r trothwyon hyn yn safleoedd bach ac ni ellir eu derbyn at ddibenion yr ymarfer hwn. Pan gynigir safle ar gyfer cymysgedd o fathau o ddatblygiad, dylid defnyddio'r trothwy sy'n cyfateb i'r prif fath o ddatblygiad.

Tai sy'n cael eu hunanadeiladu a thai sy'n cael eu hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer cwsmeriaid penodol yw lle mae gan y perchennog cychwynnol mewnbwn sylweddol i'r dyluniad a chynllun terfynol. Mae hyn yn cynnwys cartrefi lle mae'r perchennog yn ymwneud ag adeiladu neu reoli'r gwaith adeiladu, ynghyd â thai y mae'r perchennog yn eu comisiynu a'u dylunio i'w fanyleb ei hun ac sydd wedi'u hadeiladu iddo eu meddiannu, ond nid cartref sydd wedi'i adeiladu i gynllun adeiladwr heb fewnbwn dylunio a chynllun gan y perchennog. Nid ystyrir bod tai oddi ar y cynllun, cartrefi a brynwyd ar y cam cynllunio cyn eu hadeiladu a heb fewnbwn y prynwr i'w dyluniad a chynllun, yn bodloni'r diffiniad o dai hunanadeiladu a thai sy'n cael eu hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer cwsmeriaid penodol.

Gall y Cyngor hefyd gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, o gofio ei fod hefyd yn berchennog tir yng Nghasnewydd. Bydd unrhyw gyflwyniadau o'r fath yn cael eu trin ar yr un sail â phob cyflwyniad safle arall.



## Ystyriaethau allweddol cyn cyflwyno safle

Bydd y Cyngor ond yn dyrannu safleoedd sy'n glynu wrth ganllawiau cynllunio cenedlaethol fel y'u nodir o fewn Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Paragraffau 3.41 - 3.48[2]) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gadw at y gyfres chwilio ganlynol wrth nodi safleoedd priodol:

- Blaenoriaethu tir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) a/neu safleoedd sydd heb eu defnyddio'n ddigonol o fewn aneddiadau yn y lle cyntaf;
- Yna dylid ystyried safleoedd sy'n dir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) a/neu safleoedd sydd heb eu defnyddio'n ddigonol ar gyrion aneddiadau;
- Os dangosir bod angen safleoedd a thystiolaeth glir nad oes unrhyw dir datblygu (tir llwyd) neu safleoedd heb eu defnyddio'n flaenorol ar gael, gellir ystyried safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn neu ar gyrion aneddiadau.
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried safleoedd yng nghefn gwlad agored.
- Dim ond fel rhan o CDLl ar y cyd fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru y dylid cynnig aneddiadau newydd.


Bydd y wybodaeth a geisir yn yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn adlewyrchu'r angen i ddarparu gwybodaeth er mwyn i'r awdurdod asesu safle yn erbyn y Canlyniadau Creu Cynefinoedd Cynaliadwy Cenedlaethol (gweler Ffigur 5 Polisi Cynllunio Cymru[3] ).

Er mwyn i'r Cyngor gefnogi Safle Ymgeisiol, mae angen darparu tystiolaeth i'n galluogi i asesu a yw'r safle:

- Mewn lleoliad cynaliadwy a gellir ei ryddhau o bob cyfyngiad;
- Yn gallu cael ei gyflawni'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn cyfnod y cynllun;
- Yn ddichonadwy.

Felly, dylech fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau allweddol canlynol:

- Dylai adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill (manwerthu, cyflogaeth ac ati) yng nghefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau sefydledig, gael eu rheoli'n llym. Mae safleoedd a gynigir mewn lleoliadau ynysig i ffwrdd o aneddiadau diffiniedig yn annhebygol o fod yn dderbyniol.
- Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad bregus iawn (sy'n cynnwys tai, adeiladau cyhoeddus a gwasanaethau brys) o fewn ardaloedd gorlifdir risg uchaf.
- Mae angen asesiad hyfywedd safle cychwynnol ar gyfer yr holl safle a gyflwynir i'w ddatblygu[4].



[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021_02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11_0.pdf


[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021_02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11_0.pdf

[4] Ar gyfer safleoedd gwarchod, nid oes angen asesiad hyfywedd.

Rhaid i safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl Amnewid fod yn realistig, yn briodol a'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy, ac felly po fwyaf o wybodaeth y gellir ei chyflwyno i ddangos bod safle yn addas ac yn gynaliadwy, y mwyaf tebygol yw y bydd safle'n cael ei gynnwys.

Lle nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno, gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol fel arolygon ecolegol, arolygon coedyddiaeth, asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau o'r effaith ar draffig, asesiadau effaith ansawdd aer, ac unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen i ddangos bod safle'n gallu cael ei gyflawni. Cynigydd y safle sy'n gyfrifol am wneud gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynnwys safle yn y CDLl, gan gynnwys costau ariannol.

## Sut bydd Safle Ymgeisiol yn cael ei asesu?




### Sifft gyntaf:

Bydd safleoedd a gynigir ar gyfer datblygu adeiledig (e.e. tai, cyflogaeth, manwerthu) i gyd yn destun yr asesiad canlynol. Os cyflwynir safleoedd i'w gwarchod, bydd y rhain yn destun asesiad ar wahân fel rhai perthnasol e.e. eu hystyried fel rhan o'r asesiad seilwaith gwyrdd, gwaith ynni adnewyddadwy neu asesiadau trafnidiaeth.

Bydd y sifft gyntaf yn ystyried:

- Maint y safle, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r trothwy isaf a nodir uchod;
- Y berthynas â'r setliad presennol; a yw'r safle o fewn, ar ymyl, neu'r tu fas i anheddiad;

  Os yw'r safle y tu allan i anheddiad(au) ar gyfer cyflogaeth, tai neu fanwerthu neu os nad oes cysylltiad agos ag ef, mae'n annhebygol iawn o symud ymlaen oherwydd byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol h.y. datblygiad anghynaladwy yng nghefn gwlad. Mae rhai defnyddiau y gellir eu hystyried yn dderbyniol i'w datblygu yng nghefn gwlad (e.e., ynni adnewyddadwy, twristiaeth ac ati) a bydd y rhain yn symud ymlaen i'r cam asesu nesaf.
- Gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol – A yw'r safle ar gyfer datblygiad bregus iawn o fewn parth perygl llifogydd uchel? (h.y., Ardal Perygl Llifogydd C2 neu Ardal Llifogydd 3)
- A oes asesiad hyfywedd wedi'i gyflwyno gyda'r safle ar gyfer datblygu adeiledig?
  Os nad oes gan y safle asesiad hyfywedd o'r fath, yna mae'n annhebygol o'i wneud drwodd i gam nesaf yr asesiad[5].

[5] Ar gyfer safleoedd gwarchod, nid oes angen asesiad hyfywedd.

**Dim ond safleoedd sy'n bodloni'r ystyriaethau polisi lefel uchel hyn fydd yn mynd ymlaen i Gam 2.**

Bydd canlyniadau'r sifft gyntaf yn cael eu cyhoeddi fel rhan o gyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (gweler isod).

## Asesiad manwl

**Methodoleg asesu:**

Bydd y wybodaeth a ddarperir gan bob hyrwyddwr safle yn cael ei dilysu gan y tîm polisi cynllunio, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol lle bo angen (e.e., Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent, Cyfleustodau ac ati)

Bydd system godio 'goleuadau traffig' yn cael ei defnyddio gan swyddogion er mwyn nodi pa safleoedd sy'n fwy dymunol a pha safleoedd sy'n llai dymunol. Bydd y system codio 'goleuadau traffig' h.y., Gwyrdd, Ambr a Choch yn cael ei gosod yn erbyn y fethodoleg sgorio a nodir yn Nhabl 1 isod. Dylid darllen hwn ar y cyd â'r nodyn cyfarwyddyd ar sut i gwblhau'r ffurflen Safle Ymgeisiol.

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cadarnhaol |
| Oren | Angen ystyriaeth bellach |
| Coch | Negyddol |
| Llwyd | Dim digon o wybodaeth neu ddim yn berthnasol |

Mae'r Cyngor o'r farn y dylai lefel y wybodaeth a gyflwynir yn ystod y cam galw am Safleoedd Ymgeisiol fod yn gymesur ac, yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol hwn ar y safle, ni ddisgwylir i'r cyflwyniad Safle Ymgeisiol gyd-fynd â lefel y wybodaeth y byddai disgwyl ei chael er mwyn cefnogi cais cynllunio, er y bydd cynnwys manylion o'r fath ar hyn o bryd yn helpu i brosesu'r cyflwyniad.

Fodd bynnag, os yw hyrwyddwr safle yn ymwybodol o gyfyngiad sylweddol (e.e. mae rhan o'r safle o fewn y gorlifdir, neu os oes gan y safle werth ecolegol) yna fe fyddai er budd yr hyrwyddwyr safle i gyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â'r cyfyngiad hwn ochr yn ochr â'u cyflwyniad safle. Bydd nodi unrhyw faterion yn gynnar yn helpu'r cynigydd, y Cyngor ac ymgyngoreion statudol i nodi mesurau lliniaru priodol er mwyn lliniaru problemau posibl.

### TABL 1: METHODOLEG SGORIO

| Gwybodaeth Safle | Methodoleg Sgorio |
|---|---|
| Adran 3: Manylion y Safle | |
| 3.1 – 3.3 Enw'r safle, lleoliad | Dim asesiad - er gwybodaeth yn unig |
| 3.3 Ardal safle – Tir Glas/ Tir Llwyd | |
| 3.4 – 3.6 Defnyddiau presennol ac arfaethedig | |
| 3.7 Hanes cynllunio | |
| 3.8. Dyraniad CDLl Blaenorol fel Safle ymgeisiol | |

| Adran 4 Perchnogaeth | |
|---|---|
| 4.1 – 4.2 Perchnogaeth gyhoeddus | **Gwyrdd** – mae'r safle mewn strategaeth waredu gyhoeddedig.<br>**Ambr** – nid yw'r safle eto o fewn strategaeth waredu gyhoeddedig.<br>**Coch** – mae ansicrwydd ynghylch gwaredu'r tir.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 4.3 - 4.4 Tirfeddiannaeth | **Gwyrdd** – mae un tirfeddiannwr yn berchen ar y safle ac yn cefnogi'r cynnig safle, neu os dan sawl perchnogaeth mae tystiolaeth o gytundeb i'r cynnig safle.<br>**Ambr** – mae'r safle dan berchnogaeth sawl tirfeddiannwr heb unrhyw dystiolaeth o gytundeb i gydweithio.<br>**Coch** – mae ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y safle cyfan neu ran ohono a/neu nid yw tirfeddianwyr yn cefnogi'r cynnig safle.<br>**Llwyd** – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 4.5 Datblygwr | **Gwyrdd** – mae tystiolaeth o ddiddordeb gan ddatblygwyr<br>**Ambr** – nid oes diddordeb gan ddatblygwr wedi'i nodi ar hyn o bryd<br>**Coch** – amherthnasol.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 4.6 Perchnogaeth ychwanegol | Er gwybodaeth. |
| 4.7 Tirfeddiannaeth luosog | Er gwybodaeth. |
| 4.8 Cyfamodau cyfreithiol | **Gwyrdd** – nid oes cyfamodau cyfyngol ar waith.<br>**Ambr** – mae cyfamod cyfyngol ar waith ar ran neu'r cyfan o'r tir, ond mae'n annhebygol o effeithio ar ei ddyraniad yn rhannol neu'n gyfan gwbl.<br>**Coch** – mae cyfamod ar waith a fydd yn cyfyngu ar ddatblygiad y safle at ei ddefnydd arfaethedig.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |

| Adran 5: Addasrwydd y Safle | |
|---|---|
| 5.1 Lleoliad | **Gwyrdd** – mae'r safle o fewn ffin/ffiniau aneddiadau trefol neu bentref<br>**Ambr** – mae'r safle'n gyfagos neu'n gysylltiedig iawn â ffin/ffiniau trefol neu bentref.<br>**Coch** – nid oes cysylltiad agos rhwng y safle a ffin/ffiniau trefol neu bentref<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.2 Cyfyngiadau ffisegol | **Gwyrdd** – mae'r safle'n rhydd o gyfyngiadau ffisegol a dynodedig.<br>**Ambr** – mae cyfyngiadau a/neu ddynodiadau ar y safle, ond mae hyn yn annhebygol o atal datblygiad.<br>**Coch** – mae cyfyngiadau a/neu ddynodiadau sylweddol ar y safle sy'n debygol o atal datblygiad.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.3 Perygl llifogydd | **Gwyrdd** – safle o fewn ardal risg llifogydd isel NCT 15 (Ardal 1 a ddangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio).<br>**Ambr** – mewn ardal risg llifogydd uwch (Ardal Llifogydd 2 neu NCT 15 Ardal Amddiffynedig a ddangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio) ac yn dderbyniol yn unol â NCT 15.<br>**Coch** – yn llwyr o fewn Ardal Llifogydd 3 a ddangosir ar y map llifogydd ar gyfer cynllunio ac nad yw'n dderbyniol yn unol â NCT 15.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |

| | |
|---|---|
| 5.4 Ecoleg | **Gwyrdd** – dim effaith na gweithrediad niweidiol posibl i Ardal Gadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig/RAMSAR perthnasol, rhywogaethau a warchodir, SoDdGA neu Warchodfa Natur Leol/Gwarchodfa Natur Genedlaethol neu Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, a gwelliant ecolegol.<br>**Ambr** – effaith ar Ardal Gadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig/RAMSAR, rhywogaethau a warchodir, SoDdGA neu Warchodfa Natur Leol/Gwarchodfa Natur Genedlaethol neu Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur ond gellid lliniaru'n briodol er mwyn peidio ag effeithio ar nodweddion y safle.<br>**Coch** – bydd datblygu yn effeithio'n sylweddol ar ardal o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol ar gyfer cadwraeth natur a / neu rywogaethau gwarchodedig.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.5 Amgylchedd hanesyddol | **Gwyrdd** – nid oes gan y safle ased hanesyddol, neu nid yw'n agos at ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol a/neu ardal archeolegol sensitif.<br>**Ambr** – mae gan y safle ased hanesyddol, neu mae'n agos at ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol a/neu ardal archeolegol sensitif, ac mae'n debygol y gellir cyflawni mesurau lliniaru priodol.<br>**Coch** – mae gan y safle ased hanesyddol, neu mae'n agos at ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol a/neu ardal archeolegol sensitif, a byddai'n arwain at niwed i arwyddocâd yr ased hanesyddol neu mae lliniaru priodol yn annhebygol o gael ei gyflawni.<br>**Llwyd** – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.6 a 5.7 Effeithiau ar gymdogion | **Gwyrdd** – dim pryderon amwynder o ran llygredd sŵn, arogleuon, golau na llwch.<br>**Ambr** – pryderon ynghylch llygredd sŵn, arogleuon, golau neu lwch, ond mae'n debygol y gellir lliniaru'r effeithiau.<br>**Coch** – mae llygredd sŵn, arogleuon, golau a llwch yn gyfyngiad sylweddol ar ddatblygiad ac mae lliniaru priodol yn annhebygol o fod yn gyraeddadwy.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.8 Halogiad | **Gwyrdd** – nid yw'r safle wedi'i halogi.<br>**Ambr** – mae rhan o'r safle neu'r safle cyfan wedi'i halogi, ond ystyrir y byddai gwaith adfer yn bosibl ac yn hyfyw.<br>**Coch** – mae'r halogiad yn gyfyngiad sylweddol a byddai'n anodd delio ag ef/annhebygol o fod yn hyfyw.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.9 Ansawdd aer | **Gwyrdd** – nid yw'r safle o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer neu ardal glustogi ARAA, neu nid oes cynnydd net mewn traffig cerbydau.<br>**Ambr** – mae'r safle o fewn 2 cilomedr i Ardal Rheoli Ansawdd Aer neu ardal glustogi ARAA, ond mae Asesiad Effaith Ansawdd Aer wedi'i gyflwyno a gellir mynd i'r afael â'r effaith ar ansawdd aer drwy liniaru priodol<br>**Coch** – mae'r effaith ar ansawdd aer yn gyfyngiad sylweddol sy'n annhebygol o gael ei ddatrys drwy liniaru.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |

| | |
|---|---|
| 5.10 Cyfleusterau cymunedol | **Gwyrdd** – darparu lle i gyfleusterau hamdden, cymunedol, amgylcheddol neu fannau chwarae ffurfiol, neu nid oes colled.<br>**Ambr** – byddai'r cynnig yn arwain at golli cyfleusterau hamdden, cymunedol, amgylcheddol neu fannau chwarae ffurfiol, ond maent yn weddill i'r gofynion neu ystyrir y gellir gwella neu ail-leoli'r ddarpariaeth mewn man arall.<br>**Coch** – byddai'r cynnig yn arwain at golled annerbyniol o ran cyfleusterau hamdden, cymunedol, amgylcheddol neu fannau chwarae ffurfiol.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 5.11 & 5.12 Cyfyngiadau eraill | Bydd yr asesiad o hyn yn dibynnu ar natur y materion a godwyd. |
| **Adran 6: Gofynion Seilwaith a Chyflawni** | |
| 6.1 Cysylltiad gwasanaeth | **Gwyrdd** – rhai presennol, neu dystiolaeth o gysylltiadau addas.<br>**Ambr** – byddai'r gwasanaethau presennol neu arfaethedig yn addas, yn amodol ar welliannau lleol.<br>**Coch** – mae'r gwasanaethau presennol neu arfaethedig yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiad.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 6.2 Mynediad i briffordd | **Gwyrdd** – mae'r mynediad presennol neu arfaethedig yn addas.<br>**Ambr** – byddai'r mynediad presennol neu arfaethedig yn addas, yn amodol ar welliannau lleol.<br>**Coch** – mae'r mynediad presennol neu arfaethedig yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiad.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 6.3 Teithio cynaliadwy | **Gwyrdd** – mae'r safle'n cynnig opsiynau teithio cynaliadwy a chysylltiadau ar gyfer pob math o deithio llesol ac mae'n dangos sut y caiff hyn ei weithredu.<br>**Ambr** – mae'r safle'n cynnig opsiynau teithio cynaliadwy a chysylltiadau ar gyfer pob math o deithio llesol ond nid yw'n nodi sut y caiff hyn ei weithredu.<br>**Coch** – nid oes unrhyw opsiynau na chysylltiadau teithio cynaliadwywedi'u cynnig.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 6.4 Capasiti/anghenion seilwaith | **Gwyrdd** – capasiti neu ddarpariaeth seilwaith sy'n bodoli eisoes neu dystiolaeth o ran hynny.<br>**Ambr** – capasiti neu ddarpariaeth seilwaith sy'n bodoli eisoes neu dystiolaeth ohono, sy'n addas yn amodol ar welliannau lleol.<br>**Coch** – mae'r capasiti neu ddarpariaeth seilwaith sy'n bodoli eisoes yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiad.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 6.5 Isadeiledd arall | Bydd yr asesiad o hyn yn dibynnu ar natur y materion a godwyd. |

| 7: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd | |
|---|---|
| 7.1 Trefn chwilio | **Gwyrdd** – mae'r cynnig yn darparu cymysgedd o ddefnyddiau, dylunio cynhwysol ac yn bodloni dwysedd digonol (30 neu 50dph mewn lleoliadau hygyrch canolog).<br>**Ambr** – ddim yn berthnasol<br>**Coch** – nid yw'r cynnig yn darparu cymysgedd o ddefnyddiau, dylunio cynhwysol nac yn bodloni dwysedd digonol (30 neu 50dph mewn lleoliadau hygyrch canolog)<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 7.2 Creu cynefinoedd cynaliadwy | **Gwyrdd** – gall y cynnig fodloni holl ofynion Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer Canlyniadau Creu Cynefinoedd Cynaliadwy Cenedlaethol ac Egwyddorion Strategol Creu Lleoedd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.<br>**Ambr** – ddim yn berthnasol<br>**Coch** – nid yw'r cynnig yn gallu bodloni holl ofynion Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer Canlyniadau Creu Cynefinoedd Cynaliadwy Cenedlaethol nac Egwyddorion Strategol Creu Lleoedd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 7.3 Nodau llesiant | Bydd gallu'r safle i gyflawni yn erbyn y nodau llesiant yn cael ei farnu yn erbyn gallu'r safle i gyflawni'r amcanion gwneud lleoedd a nodir yng Nghwestiwn 7.2. |
| 7.4 Cyfleoedd amddiffyn a gwella | **Gwyrdd** – mae'r cynnig yn gallu darparu cyfleoedd amddiffyn a gwella ar y safle o ran nodweddion amgylcheddol.<br>**Ambr** – dim ond cyfleoedd amddiffyn a gwella cyfyngedig ar y safle y gall y cynnig eu darparu o ran nodweddion amgylcheddol.<br>**Coch** – amherthnasol.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 7.5 Hygyrchedd cyfleusterau<br><br>*D.S. Dylid ystyried hyn fel pellter swyddogaethol h.y. ar hyd y ffordd, rhwydweithiau beicio yn hytrach na'r pellter uniongyrchol rhwng dau bwynt.* | **Gwyrdd** – mae'r safle wedi dangos ei fod yn hygyrch (800m) i nifer o gyfleusterau gan gynnwys ysgolion, siopau, gwasanaethau iechyd o fewn pellter cerdded neu mae'n eu darparu ar y safle.<br>**Ambr** – mae'r safle wedi dangos ei fod yn hygyrch i nifer o gyfleusterau gan gynnwys ysgolion, siopau, gwasanaethau iechyd drwy fathau cynaliadwy o drafnidiaeth.<br>**Coch** – bydd y safle'n dibynnu ar gludiant preifat i gerbydau i gael mynediad at wasanaethau allweddol.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 7.6 Ymgysylltu | Er gwybodaeth. |
| 7.7 Newid yn yr hinsawdd | **Gwyrdd** – cynigir i'r datblygiad fod yn ddi-garbon<br>**Ambr** – cynigiwyd rhai technolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon tu hwnt i ofynion Rheoliadau Adeiladu<br>**Coch** – mae'r datblygiad ond yn mynd i fodloni Rheoliadau Adeiladu.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |

| Adran 8: Cyflawni'r Safle a'i Hyfywedd |
|---|
| Caiff y wybodaeth **Asesiad Hyfywedd** a ddarperir ei gwirio. Pan fydd safleoedd yn symud ymlaen drwy broses ddatblygu'r CDLl bydd angen gwybodaeth ac asesiadau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall y safle fodloni gofynion polisi a pharhau i fod yn hyfyw ac yn gyflawniadwy. |

| | |
|---|---|
| 8.1 & 8.2 Dangosol | **Gwyrdd** – mae'r safle ar gael ar hyn o bryd a gellir ei gyflawni''n gyfan gwbl/yn rhannol o fewn cyfnod y cynllun.<br>**Ambr** – mae'r safle wedi'i feddiannu ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd ar gael yn ystod cyfnod y cynllun.<br>**Coch** – mae'r safle wedi'i feddiannu ar hyn o bryd, ac nid yw'n glir a fydd ar gael yn ystod cyfnod y cynllun.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 8.3 Cyflawni | Er gwybodaeth. |
| 8.4 Gofynion yr arolwg safle | Er gwybodaeth. |
| 8.5 Hunan-adeiladu/a adeiladir ar gyfer cwsmer penodol | Er gwybodaeth. |
| 8.6 Darpariaeth tai fforddiadwy | **Gwyrdd** – bydd y safle'n darparu ar gyfer mwy na'r trothwy tai fforddi-adwy presennol.<br>**Ambr** – bydd y safle'n cyrraedd y trothwy tai fforddiadwy presennol.<br>**Coch** – ni fydd y safle'n darparu tai fforddiadwy.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |
| 8.7 Llety Sipsiwn a Theithwyr a dosbarth defnydd | Dim asesiad - er gwybodaeth yn unig |
| 8.8 Dosbarth defnydd dibreswyl | Er gwybodaeth. |
| 8.9 Creu swyddi | **Gwyrdd** – bydd y safle'n darparu gofod llawr economaidd a swyddi newydd.<br>**Ambr** – bydd y safle'n cynnal arwynebedd llawr economaidd a/neu swyddi.<br>**Coch** – bydd y safle'n arwain at golli arwynebedd llawr economaidd a/neu swyddi.<br>**Llwyd** – nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno. |

Bydd safleoedd hefyd yn cael eu hasesu drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol yn amlinellu'r fethodoleg a gymhwysir i asesu Safleoedd Ymgeisiol amgen.

Disgwylir i safleoedd ychwanegol a gynigir yn y cam Strategaeth a Ffefrir efelychu'r asesiad hwn.

## Pryd fyddaf yn gallu gweld pa safleoedd sydd wedi'u cyflwyno?

Cyhoeddwyd Cofrestr Safle Ymgeisiol ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru i gefnogi'r Cynllun Adneuo a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â hyn ddiwedd 2024.

## Beth sy'n digwydd ar ôl ymgynghoriad y Strategaeth Ddewisol?

Ar yr adeg hon, efallai y bydd angen i'r Cyngor ofyn am ragor o wybodaeth, gan gynnwys adolygiad o’r wybodaeth hyfywedd a gyflwynwyd yn flaenorol. Bydd y tîm polisi cynllunio yn cysylltu â chynrychiolwyr safleoedd yn ôl yr angen.

## Beth os oes gen i safle newydd ar ôl y Strategaeth a Ffefrir?

Dylid gwneud pob ymdrech i osgoi cyflwyno safleoedd newydd ar ôl y cam Strategaeth a Ffefrir gan y bydd yn anodd i'r Cyngor asesu'r rhain a gellir eu hystyried fel safleoedd amgen neu heriol.

## Pryd fyddaf yn gwybod a yw fy safle wedi'i ddyrannu yn y CDLl?

Cyhoeddir y Cynllun Adneuo, neu'r cynllun drafft llawn, yn ddiweddarach yn 2024 a bydd yn amlinellu'r holl safleoedd y mae'r Cyngor yn eu cynnig fel dyraniad.

## A oes gennych unrhyw gwestiynau?

Yna cysylltwch ag aelod o'r tîm polisi cynllunio, e-bostiwch **ldp.consultation@newport.gov.uk** neu ffoniwch aelod o'r Tîm Polisi Cynllunio ar 01633 656656.

Byddem yn hapus i siarad drwy'r broses neu roi cyflwyniad ar y cam penodol hwn.

